# JONES, Syr HENRY STUART (1867 - 1939), ysgolhaig clasurol a geiriadurwr

**Enw:** Henry Stuart Jones
**Dyddiad geni:** 1867
**Dyddiad marw:** 1939
**Priod:** Ileen Jones (née Vaughan)
**Rhiant:** Margaret Lawrance Jones (née Baker)
**Rhiant:** Henry William Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** ysgolhaig clasurol a geiriadurwr
**Maes gweithgaredd:** Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Harold Idris Bell

Ganwyd yn Hunslet, Leeds, 15 Mai 1867, unig blentyn y Parch. Henry William Jones (ar y pryd curad Hunslet) a Margaret Lawrance (Baker). Addysgwyd ef yn ysgol Rossall a Choleg Balliol, Rhydychen (ysgolor clasurol, 1886). Yng nghwrs gyrfa ddisglair yn y brifysgol enillodd ysgoloriaethau Hertford, Craven, ac Ireland, Gwobr Gaisford am ryddiaith Roegaidd, a'r ' Craven Fellowship.' Bu yn gymrawd Coleg y Drindod, Rhydychen, 1890-1906, a chyfarwyddwr y ' British School at Rome,' 1903-5. Yn 1905 ymsefydlodd yn Saundersfoot, Sir Benfro; yn 1919 apwyntiwyd ef yn ' Camden Professor of Ancient History ' a chymrawd Brasenose College, Rhydychen, ac yn 1927 yn brifathro Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Gan ei fod o waed hanner- Cymreig, ymegnïodd i feistroli'r iaith, a bu'n weithgar ym mywyd Cymru, fel is-ganghellor y Brifysgol 1929-31, aelod o fwrdd llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru a chynghorau Coleg Dewi Sant, Llanbedr-Pont-Steffan, Coleg y Drindod, Caerfyrddin, a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Urddwyd yn farchog 1933, ymneilltuodd o'r coleg 1934, a bu farw yn Ninbych-y-pysgod 29 Mehefin 1939. Priododd 1894, Ileen, merch y Parch. Edwyn Henry Vaughan; bu hithau farw 1931. Yr oedd ganddynt un mab. Yr oedd Syr Henry yn gymrawd o'r Academi Brydeinig ers 1915, a llywydd y ' Society for the Promotion of Roman Studies,' 1926-9; cysegrwyd iddo rifyn 1937 o'i *Journal* ar achlysur ei 70ain ben blwydd. Ym maes yr efrydiau clasurol y gwnaethpwyd rhan fwyaf ei waith; ymhob cangen ohonynt, yn cynnwys cerddoriaeth Roegaidd, yr oedd yn feistr. Bu'n brif olygydd argraffiad newydd *Greek-English Lexicon* Liddell a Scott (1925-40). Ymhlith ei gyhoeddiadau niferus (llyfryddiaeth, gweler *Journ. Rom. Stud.*, xxvii, 3-11) y mae argraffiad o Thucydides (*Oxford Classical Texts*, 1898), *The Roman Empire*, 1908, ac *A Companion to Roman History*, 1912.

## Awdur

**Syr Harold Idris Bell**, (1879 - 1967)

## Ffynonellau

*Proceedings of the British Academy*, xxvi, 467-78

*Oxford Dictionary of National Biography*, 1931-40

*Who's who?*, 1939

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 100180403

Wikidata: Q1607288

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu